

Ffurflen gwariant ar ymgyrchu - Refferendwm ar aelodaeth y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd

Diweddarwyd 27 Medi 2016

Dylech ddarllen y [canllawiau cysylltiedig](#) cyn cwblhau'r [ffurflen hon](#). Gallwch hefyd roi gwybod am eich gwariant ar ymgyrchu [ar-lein](#).

Os byddwch yn gwario **mwyastron na £10,000** ar ymgyrchu yn ystod cyfnod y refferendwm, rhaid i chi roi gwybod i ni am eich gwariant yn eich ffurflen [gwariant ar ymgyrchu](#).

Os ydych wedi cofrestru'n ymgyrchydd refferendwm a'ch bod yn gwario **£10,000 neu lai** yn ystod cyfnod y refferendwm, ni fyddwch yn cwblhau ffurflen gwariant ar ymgyrch y refferendwm. Yn hytrach, rhaid i chi gwblhau [datganiad](#) yn cadarnhau eich bod wedi gwario £10,000 neu lai.

Bydd cyfanswm eich gwariant ar y refferendwm yn cael ei gyfrifo'n awtomatig o'r wybodaeth a roddwch yn y daflen waith 'Taliadau a wnaed'. Defnyddiwch y cyfrifiadau fel canllaw ar gyfer eich cyfansymiau gwariant. Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod y ffigurau'n gywir. Os byddwch yn diwygio'r ffurflen neu'r taflenni gwaith, gall amharu ar y fformiwlâu.

Ar gyfer pwy y mae'r ffurflen hon:

Yr unigolyn cyfrifol ar gyfer ymgyrchydd cofrestredig yn Refferendwm yr UE.

Rydym yn defnyddio'r gair "rhaid" yn y canllawiau hyn i egluro bod gofyniad cyfreithiol i ddarparu gwybodaeth.



Mae fersiwn Excel o'r ffurflen ar gael [yma](#).

Mae angen cwblhau'r ffurflen hon erbyn:

- Gwariant o £250,000 neu lai - **23 Medi 2016**
- Gwariant dros £250,000 - **23 Rhagfyr 2016**

Byddwn yn cyhoeddi manylion y ffurflenni gwariant ar ymgyrchu ar ôl dyddiad yr etholiad.

Nodiadau eglurhaol

Adran 1 - Manylion yr ymgyrchydd cofrestredig

Rhowch eich manylion cyswllt a'ch rhif cofrestru CPE ar-lein. Mae'n dechrau gyda'r rhagddodiad 'PerPar' a byddwch yn ei gael pan fyddwch yn cofrestru neu fel arall mae i'w weld ar y rhestr o ymgyrchwyr [yma](#).

Gwariant ar y Refferendwm

Dywedwch wrthym beth yw eich terfyn gwariant. Bydd cyfanswm eich gwariant ar y refferendwm yn cael ei gyfrifo'n awtomatig o'r manylion a roddwch yn y daflen waith 'Taliadau a wnaed', adran 4 a'ch gwariant ymgyrchu ar y cyd.

Os nad ydych yn ymgyrchydd arweiniol dynodedig, caiff cyfanswm eich gwariant mewn ymgyrch ar y cyd ag ymgyrchydd arweiniol dynodedig ei gyfrifo'n awtomatig hefyd.

Adran 2 - Datganiadau

Pleidiau gwleidyddol

Os yw eich sefydliad yn blaid gofrestrdedig (heblaw am blaid fach) dylech gwblhau'r datganiad yn adran 2a **yn unig**. Nid oes angen i chi gwblhau adrannau 8 na 9, oherwydd rhaid i chi nodi unrhyw roddion neu fenthyciadau a drefnwyd ar gyfer eich ymgyrch yn eich adroddiadau chwarterol arferol.

Sefydliadau ac unigolion eraill

Os nad ydych yn blaid wleidyddol neu os ydych yn blaid wleidyddol fach neu'n unigolyn, rhaid i chi gwblhau'r datganiadau yn adran 2a. Os ydych wedi derbyn unrhyw roddion dros £500, rhaid i chi hefyd lofnodi **un** o'r datganiadau yn adran 2b:

- Cwblhewch y datganiad cyntaf os oedd eich holl roddion gan roddwyr a ganiateir.
- Cwblhewch yr ail ddatganiad os cawsoch un neu fwy o roddion nas caniateir neu na ellir ei nodi a nodwch a wnaethoch ddychwelyd neu anfon y rhodd i'r Comisiwn Etholiadol yn unol ag adran 56(2) o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA). Defnyddiwch y rhifau cyfeirnod rydych yn eu defnyddio ar y daflen waith las ar gyfer rhoddion nas caniateir.

Canllawiau cysylltiedig:

- [Gwariant ar gyfer ymgyrchwyr refferendwm yr UE](#)
- [Rhoddion ar gyfer ymgyrchwyr refferendwm yr UE](#)
- [Benthyciadau ar gyfer ymgyrchwyr refferendwm yr UE](#)
- [Yr hyn a ganiateir i ymgyrchwyr refferendwm yr UE](#)

Rhaid i bleidiau gwleidyddol ddefnyddio'r broses adrodd chwarterol i roi gwybod am unrhyw roddion neu fenthyciadau a drefnir ar gyfer yr ymgyrch hon. Gweler:

- [Rheoli rhoddion i bleidiau gwleidyddol](#)
- [Trosolwg o fenthyciadau i bleidiau gwleidyddol](#)

Os ydych wedi llofnodi'r datganiad rhoddion, mae'n rhaid i chi hefyd gwblhau adran 7 ar roddion yr ydych wedi eu derbyn.

Os ydych wedi cael unrhyw fenthyciadau dros £500, mae'n rhaid i chi hefyd gwblhau **un** o'r datganiadau yn 2c.

- Cwblhewch y datganiad cyntaf os nad oedd yr un o'ch trafodion yn ddi-rym.
- Cwblhewch yr ail ddatganiad os oedd un neu fwy o'ch trafodion yn ddi-rym a nodwch a wnaethoch eu dychwelyd yn unol ag Atodlen 5(2), 5(6) neu 6(3) o Atodlen 15A o PPERA. Defnyddiwch y rhifau cyfeirnod rydych wedi'u rhoi ar y daflen waith werdd ar gyfer trafodion di-rym.

Mae fersiwn Excel o'r ffurflen ar gael [yma](#).

Os ydych wedi llofnodi'r datganiad rhoddion, mae'n rhaid i chi hefyd gwblhau adran 8 ar fenthyciad yr ydych wedi eu derbyn

Adran 3 Ffurflen archwiliedig

Dywedwch wrthym a yw eich ffurflen wedi'i harchwilio. Rhaid i chi drefnu bod eich ffurflen yn cael ei harchwilio os ydych wedi gwario mwy na £250,000 ar eich ymgyrch. Hefyd, mae angen i chi anfon [adroddiad archwilydd](#) wedi'i gwblhau gyda'r ffurflen archwiliedig.

Adrannau 4 - crynodeb o'ch gwariant

Rhaid i chi gynnwys manylion eich holl wariant, p'un a aethoch iddo ar eich ymgyrch eich hun neu ar ymgyrch ar y cyd o dan y rheolau "cydweithio".

Ar gyfer yr holl wariant yr aethoch iddo **o ac yn cynnwys** y diwrnod y gwnaethoch gofrestru fel ymgyrchydd refferendwm, rhaid i chi ddarparu'r manylion canlynol:

- Yr holl daliadau a wnaed mewn perthynas â'r gwariant yr aed iddo ar y refferendwm gan neu ar ran yr ymgyrchydd yn ystod cyfnod y refferendwm
- Yr holl wariant tybiannol yr aed iddo
- Yr holl hawliadau heb eu talu, y gwnaed cais ar eu cyfer, neu y gwneir cais ar eu cyfer, i lys o dan adran 115 o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000
- Yr holl hawliadau sy'n destun anghydfod

Hefyd, rhaid cynnwys yr holl anfonebau neu dderbynebau sy'n ymwneud â'r holl daliadau hyn.

Bydd y ffigurau 'Taliadau a wnaed' a 'Gwariant tybiedig yr aed iddo' yn y tabl crynodeb yn cael eu poblogi'n awtomatig o'r daflen waith 'Taliadau a wnaed'. Rhaid i chi nodi ffigur cyfansymiol ar gyfer 'Hawliadau heb eu talu' a 'Hawliadau sy'n destun anghydfod'.

Y gwariant yr aed iddo cyn i chi gofrestru

Rhaid i chi roi cyfanswm o'r holl wariant yr aed iddo **cyn** i chi gofrestru ond a ddefnyddiwyd **yn ystod** cyfnod y refferendwm. Nid oes angen i chi roi rhagor o fanylion am wariant yr aed iddo cyn i chi gofrestru.

Gwariant yr aed iddo o ac yn cynnwys y diwrnod y gwnaethoch gofrestru

Defnyddiwch y taflenni gwaith ar gyfer gwariant (lliw coch) i roi manylion y taliadau a wnaethoch, yn cynnwys gwariant tybiannol.

Ceir taflenni gwaith ar wahân ar gyfer y wybodaeth ychwanegol sydd ei hangen ar gyfer hawliadau heb eu talu a hawliadau y



Am ragor o wybodaeth am adrodd ar wariant, gweler:

- [Trosolwg o wariant ar refferendwm](#)

ceir anghydfod yn eu cylch. Rhaid i chi gyflwyno'r taflenni gwaith gyda'ch ffurflen os ydynt yn cynnwys rhywbeth yr ydych am adrodd arno. Os nad oes gennych unrhyw beth i'w nodi ar daflen waith, nid oes angen i chi ei chyflwyno, ond rhaid i chi roi sero yn y blwch crynodeb ar y brif ffurflen.

Dylech fwrw golwg gofalus ar y wybodaeth rydych yn ei rhoi ynghyd â'ch cyfrifiadau.

Taflen waith taliadau a wnaed

Ar gyfer pob eitem o wariant, rydym yn argymhell y dylech roi'r manylion canlynol:

- **rhif yr eitem.** Dylid rhoi'r rhif '1' i'r taliad cyntaf a gofnodir ac yna rifo eitemau mewn trefn. Mae angen i rifau eitemau fod yn unigryw oherwydd fe'u defnyddir i groesgyfeirio â rhannau eraill o'r ffurflen ynghyd â'r anfonebau/derbynebau ategol
- nodi p'un a gyflwynwyd **anfoneb** neu **dderbynneb**. Mae angen anfoneb neu dderbynneb ar gyfer pob eitem sy'n fwy na £200 ac eithrio gwariant tybiannol
- categori'r gwariant, fel deunydd a anfonwyd at etholwyr yn ddigymell neu ddarllediadau ymgyrch
- yr **eitem** neu'r **gwasanaeth** a ddefnyddiwyd
- **enw a chyfeiriad y cyflenwr** lle nad yw'n ymddangos ar anfoneb neu dderbynneb a gyflwynwyd gyda'r ffurflen
- y **dyddiad** y gwariwyd yr arian
- y **dyddiad** y talwyd yr anfoneb
- **gwerth** yr eitem
- y **swm a dalwyd**, os yw'n wahanol i werth yr eitem
- y **gwerth tybiannol** (os o gwbl)
- nodwch p'un a yw'r eitem yn un y mae **anghydfod** yn ei chylch neu'n **hawliad heb ei dalu**. Rhwch y wybodaeth ychwanegol y gofynnwyd amdani am eitemau y ceir anghydfod yn eu cylch neu sydd heb eu talu gan ddefnyddio'r taflenni gwaith a ddarparwyd
- nodwch a aed i'r gwariant fel rhan o ymgyrch ar y cyd **heb** ymgyrchydd arweiniol dynodedig; ymgyrch ar y cyd **gydag** ymgyrchydd arweiniol dynodedig neu **y naill na'r llall**. Defnyddiwch y gwymplen a ddarparwyd



Cofiwch nodi pan fyddwch yn cynnwys taliad sero.

Hawliadau heb eu talu

Rhaid i chi gael pob anfoneb gan gyflenwyr ar neu cyn **25 Gorffennaf 2016**. Os na chewch anfoneb o fewn y 30 diwrnod, rhaid i chi neu'r cyflenwr gael gorchymyn llys i wneud hynny. Rhaid i chi roi gwybod am y rhain fel 'hawliadau heb eu talu' ar y ffurflen gwariant.

Defnyddiwch y daflen waith ar gyfer hawliadau heb eu talu er mwyn rhoi rhagor o fanylion. Defnyddiwch yr un rhif eitem i groesgyfeirio'r ddau gofnod ar y taflenni gwaith gwahanol. Dylech gynnwys manylion pryd y gwnaethoch chi neu eich cyflenwr wneud cais i lys, neu pryd y byddwch yn cyflwyno cais, i wneud taliad hwyr. Dylech gynnwys unrhyw orchmynion llys ar eich ffurflen.

Hawliadau sy'n destun anghydfod

Rhaid i chi dalu eich holl anfonebau gan gyflenwyr ar neu cyn **22 Awst 2016**. Os na thalwch anfoneb o fewn y 60 diwrnod, rhaid i chi gael gorchymyn llys i allu gwneud hynny. Mae'n drosedd talu anfoneb ar ôl y dyddiad hwn heb orchymyn llys. Mae'n drosedd talu anfoneb ar ôl y dyddiad hwn heb orchymyn llys. Rhaid i chi roi gwybod am y rhain fel 'hawliadau y ceir anghydfod yn eu cylch' ar y ffurflen gwariant. Os cewch orchymyn llys, dylech hefyd gynnwys hyn yn eich ffurflen.

Defnyddiwch y daflen waith ar gyfer hawliadau sy'n destun anghydfod i roi rhagor o fanylion am unrhyw hawliadau sy'n destun anghydfod. Defnyddiwch yr un rhif eitem i groesgyfeirio'r ddau gofnod ar y taflenni gwaith gwahanol.

I gael mwy o wybodaeth ar hawliadau heb eu talu, gweler:

- [Talu anfonebau ar gyfer gwariant ymgyrchu](#)

I gael mwy o wybodaeth ar hawliadau heb eu talu, gweler:

- [Talu anfonebau ar gyfer gwariant ymgyrchu](#)

Adran 5 - Crynodeb o'ch gwariant gan eich ymgyrchwyr ar y cyd nad ydynt yn ymgyrchwyr arweiniol dynodedig

Rhaid i chi gwblhau adran 5 os aethoch i wariant ar y refferendwm fel rhan o ymgyrch ar y cyd. Os **nad** ydych yn ymgyrchydd arweiniol dynodedig, **peidiwch** â chynnwys gwariant yr aed iddo mewn ymgyrch ar y cyd ag ymgyrchydd dynodedig yn yr adran hon.

Rhaid i chi roi manylion yr ymgyrchydd arall/ymgyrchwyr eraill y gwnaethoch weithio ag gydag ef/gyda hwy ar yr ymgyrch ar y cyd.

Rhaid i chi roi enw(au) yr ymgyrchydd arall/ymgyrchwyr eraill. Os yw/ydynt wedi cofrestru gyda'r Comisiwn Etholiadol, rhaid i chi roi'r enw a ddefnyddiwyd ganddo/ganddynt i gofrestru ar CPE Ar-Lein. Rhowch ei rif/eu rhif cyfeirnod CPE ar-lein hefyd (os oes ganddo/ganddynt un). Mae'n dechrau gyda'r rhagddodiad 'PerPar' ac mae i'w weld ar y gofrestr o ymgyrchwyr [yma](#).

Yn y drydedd golofn, rhaid i chi nodi cyfanswm gwariant yr ymgyrchydd ar yr ymgyrch ar y cyd, i'r graddau rydych yn gwybod hyn.

Yn y bedwaredd golofn, rhaid i chi hefyd ddweud wrthym faint o'ch gwariant fydd yn cyfrif tuag at wariant eich ymgyrchydd ar y cyd. Rhaid i hyn gynnwys unrhwy wariant yr aethoch iddo cyn i chi gofrestru a ddefnyddiwyd gennych mewn ymgyrch ar y cyd gyda'r ymgyrchydd hwnnw yn ystod cyfnod y refferendwm.

Adran 6 - Gwariant yr aed iddo mewn ymgyrch ar y cyd ag ymgyrchydd arweiniol dynodedig

Os ydych yn ymgyrchydd arweiniol dynodedig, **peidiwch** â llenwi'r adran hon.

Rhaid i chi gwblhau adran 6 os aethoch i wariant fel rhan o ymgyrch ar y cyd ag ymgyrchydd arweiniol dynodedig.

Defnyddiwch y taflenni gwaith ar gyfer gwariant (lliw coch) i roi manylion.

Ceir rhagor o wybodaeth am adrodd ar wariant ar yr ymgyrch ar y cyd yn:

- [Trosolwg o'r rheolau cydweithio](#)

 Pwysig

Nid yw'r gwariant hwn yn cyfrif tuag at eich terfyn gwariant ond rhaid i chi roi'r un manylion a defnyddio'r un taflenni gwaith ag adran 4.

Adran 7 - Rhoddion ar gyfer eich ymgyrch

Nid oes angen i chi gwblhau'r adran hon os yw eich sefydliad yn blaid wleidyddol gofrestredig (oni bai ei bod yn blaid fach) - gweler adran 2.

Ar y ffurflen gwariant, rhaid i chi gynnwys datganiad o'r rhoddion a dderbyniwyd gennych a rhoddion a ddychwelwyd gennych. Mae hyn yn gymwys i roddion a gafwyd **o ac yn cynnwys y diwrnod y gwnaethoch gofrestru**

Rhoddion a ganiateir

Defnyddiwch y daflen waith ar gyfer rhoddion a ganiateir (lliw oren) er mwyn rhoi manylion yr holl roddion a ganiateir:

- dros £7,500, a
- rhoddion a benthyciadau dros £500 o'r un ffynhonnell sy'n dod i fwy na £7,500

Rhaid i chi nodi cyfanswm gwerth unrhyw roddion a ganiateir sy'n werth mwy na £500 a llai na £7,500 nad ydych yn eu nodi ar y daflen waith rhoddion a ganiateir. Nid oes angen i chi roi mwy o wybodaeth am y rhoddion hyn.

Ar gyfer pob rhodd dros £7,500 a dderbynnir gan yr ymgyrchydd, rhowch y manylion canlynol:

- enw llawn y rhoddwr
- cyfeiriad, neu gyfeiriad cofrestredig, y rhoddwr - os mai cwmni cofrestredig ydyw rhowch rif cofrestru'r cwmni hefyd
- statws y rhoddwr h.y. unigolyn/cwmni/undeb llafur. Defnyddiwch y gwymplen i ddewis rhoddwr a ganiateir
- y dyddiad y cawsoch y rhodd
- y dyddiad y derbynioch y rhodd
- gwerth y rhodd
- y math o rodd. Os nad oedd y rhodd yn rhodd ariannol, rhowch ddisgrifiad o'r nwyddau a'r gwasanaethau a gafwyd e.e. hysbysebu/safle/lletygarwch

Canllawiau cysylltiedig:

- [Rhoddion ar gyfer ymgyrchwyr refferendwm yr UE](#)
- [Adrodd cyn y bleidlais ar gyfer ymgyrchwyr Refferendwm yr UE](#)
- [Caniatâd ar gyfer ymgyrchwyr Refferendwm yr UE](#)

Mae enghreifftiau o roddion anariannol yn cynnwys y canlynol:

- defnydd o swyddfa am ddim neu am bris gostyngol
- taflenni fel rhodd
- llogi trafndiaeth am ddim
- gwasanaeth cynllunio gwefan am bris gostyngol

- os oes gan roddwr gofrestrriad dienw, rhaid i chi ddarparu datganiad i gadarnhau eich bod wedi gweld tystiolaeth bod gan yr unigolyn gofnod dienw ar y gofrestr

Os cafwyd y rhodd gan ymddiriedolaeth, cysylltwch â ni i gael rhagor o wybodaeth am yr hyn sydd angen i chi roi gwybod i ni.

Rhoddion nas caniateir a rhoddion na ellir eu nodi

Defnyddiwch y daflen waith ar gyfer rhoddion nas caniateir (lliw glas) i sôn am yr holl roddion nad oedd yn bosibl i chi eu derbyn. Ar gyfer pob rhodd nas caniateir a dderbyniwyd gan neu ar ran yr ymgeisydd cofrestredig, rhowch y manylion canlynol:



- Enw a chyfeiriad y rhoddwr os yw'n hysbys; neu sut y rhoddwyd y rhodd os nad yw'n hysbys
- Swm y rhodd neu natur a gwerth y rhodd
- Sut y rhoddwyd y rhodd
- Y dyddiad y cawsoch y rhodd
- y math o rodd. Os nad oedd y rhodd yn rhodd ariannol, rhowch ddisgrifiad o'r nwyddau a'r gwasanaethau a gafwyd e.e. hysbysebu/safle/lletygarwch
- Y dyddiad y gwnaethoch ymdrin â'r rhodd (drwy ei dychwelyd, er enghraifft) a sut y gwnaethoch hynny

Ar gyfer pob rhodd na ellir ei nodi a dderbyniwyd gan neu ar ran yr ymgeisydd cofrestredig, rhowch y manylion canlynol:

- Swm y rhodd neu natur a gwerth y rhodd
- Sut y rhoddwyd y rhodd
- Y dyddiad y cawsoch y rhodd
- Y dyddiad pan wnaethoch ymdrin â'r rhodd a'r modd y gwnaethoch hynny

Adran 8 - Benthyciadau ar gyfer eich ymgyrch

Nid oes angen i chi gwblhau'r adran hon os yw eich sefydliad yn blaid wleidyddol gofrestredig (oni bai ei bod yn blaid fach) - gweler adran 2.

Ar y ffurflen gwariant, rhaid i chi gynnwys datganiad o'r benthyciadau a drefnwyd. Mae hyn yn gynnwys i fenthyciadau a drefnwyd **o ac yn cynnwys y diwrnod y gwnaethoch gofrestru.**

Os gwnaethoch drefnu benthyciad cyn 1 Chwefror 2016 a'ch bod wedi cynyddu gwerth y benthyciad o ac yn cynnwys y diwrnod y gwnaethoch gofrestru, gall fod angen nodi hyn ar eich ffurflen yn unol â'r gwerthoedd isod ar eich ffurflen. Cyfeirir at hyn fel 'benthyciad amrywiol'.

Benthyciadau a ganiateir, cyfleusterau credyd a sicrwydd a gwarantau

Defnyddiwch y daflen waith benthyciadau lliw porffor er mwyn rhoi manylion yr holl fenthyciadau sy'n fwy na £7,500. Mae hyn yn cynnwys:

- benthyciadau a drefnir sydd dros £7,500 (yn cynnwys unrhyw fenthyciadau amrywiol), a
- rhoddion a benthyciadau dros £500 o'r un ffynhonnell sy'n dod i fwy na £7,500 (yn cynnwys unrhyw fenthyciadau amrywiol).

Rhaid i chi nodi cyfanswm gwerth unrhyw fenthyciadau sy'n werth mwy na £500 a llai na £7,500 nad ydych yn eu nodi ar y daflen waith. Nid oes angen i chi roi mwy o wybodaeth am y rhoddion hyn.



Noder bod yn rhaid i chi brisio cyfleusterau credyd yn ôl yr uchafswm y gellir ei fenthyg; nid y swm rydych wedi'i fenthyg.

Rydym wedi darparu taflenni gwaith ar wahân ar gyfer benthyciadau ariannol, cyfleusterau credyd (gan gynnwys gorddrafftiau), ac unrhyw sicrwydd neu warantau a roddwyd.

Defnyddiwch y taflenni gwaith perthnasol i nodi pob benthyciad neu gyfleuster credyd. Rhaid i chi roi'r manylion canlynol:

- Enw llawn a chyfeiriad y benthyciwr
- Os mai cwmni yw'r benthyciwr, rhif cofrestru'r cwmni
- Gwerth y benthyciad ac, os nad oes gan gyfleuster credyd derfyn penodol, ddatganiad i'r perwyl hwnnw
- Y dyddiad y trefnwyd y benthyciad

- Y dyddiad y mae disgwyl i'r benthyciad gael ei ad-dalu neu'r dyddiad y mae disgwyl i'r cyfleuster ddod i ben neu ddatganiad ei fod yn benagored neu, fel arall, sut y caiff y dyddiad ei bennu o dan y cytundeb
- Os yw'r benthyciad wedi dod i ben, y dyddiad y daeth i ben
- Y gyfradd llog - neu sut y caiff y gyfradd ei phennu o dan y cytundeb, neu ddatganiad nad oes unrhyw log yn daladwy
- P'un a yw'r cytundeb yn cynnwys darpariaeth sy'n golygu y gellir ychwanegu llog nas talwyd at y swm dyledus
- P'un a roddwyd unrhyw sicrwydd ar gyfer y benthyciad ai peidio
- Os trefnwyd benthyciad gyda rhywun sy'n fenthyciwr a ganiateir gyda chofnod dienw mewn cofrestr etholwyr, atodwch eu 'tystysgrif cofrestriad dienw'

Defnyddiwch y taflenni gwaith perthnasol i nodi pob sicrwydd a gwarant. Rhaid i chi roi'r manylion canlynol:

- Enw a chyfeiriad y gwarantwr
- Natur y trafodyn - pa fath o drefniant ydyw ac yn ôl y math o sicrwydd a roddir
- Y dyddiad y rhoddwyd y warant neu'r sicrwydd
- Y swm y byddai'r gwarantwr yn atebol amdano pe bai achos o ddiffygdlu
- Manylion am unrhyw ystyriaeth a roddwyd yn gyfnewid am hynny, neu ddatganiad na roddwyd ystyriaeth
- Os yw'r sicrwydd yn cynnwys hawliau dros eiddo, natur yr eiddo hwnnw
- Os trefnwyd trafodyn gyda rhywun sy'n fenthyciwr a ganiateir gyda chofnod dienw mewn cofrestr etholwyr, atodwch 'dystysgrif cofrestriad dienw'
- Dylech hefyd roi statws y benthyciwr h.y. unigolyn/cwmni/undeb llafur

Nodi unrhyw newidiadau a wnaed i gytundebau benthyciad

Defnyddiwch y daflen waith ar gyfer newidiadau (lliw melyn)

i nodi unrhyw newidiadau a wnaed i'r manylion uchod o'r benthyciadau a drefnwyd gennych. Rhaid i chi ddweud wrthym am y newidiadau hyn.

Defnyddiwch y rhif cyfeirnod a neilltuwyd i'r datganiad gwreiddiol am y benthyciad, cyfleuster credyd neu warant er mwyn croesgyfeirio'r wybodaeth ychwanegol am y newidiadau a wnaed i'r trafodyn ers iddo gael ei drefnu.

Hefyd, mae'n rhaid i chi gofnodi'r dyddiad y daeth unrhyw drafodyn i ben, ac yn achos benthyciad, sut y daeth i ben (p'un a gafodd y ddyled ei had-dalu neu ei rhyddhau).

Trafodion di-rym

Defnyddiwch y daflen waith ar gyfer trafodion di-rym (lliw gwyrdd)

i nodi benthyciadau a drefnwyd gyda benthycwyr nas caniateir neu na ellir eu nodi. Rhaid i chi gofnodi:

- Yr un manylion ag sydd eu hangen ar gyfer benthyciad a ganiateir (i'r graddau y gellir eu cofnodi)
- Y dyddiad yr ymdriniwyd â'r trafodyn, a'r ffordd yr ymdriniwyd ag ef yn unol â'r darpariaethau deddfwriaethol perthnasol. Er enghraifft, sut y gwnaethoch ad-dalu'r benthyciad ac ar ba ddyddiad



Cwblhau ac anfon y ffurflen atom

Dylai'r unigolyn cyfrifol gwblhau'r ffurflen hon a'i dychwelyd atom.

Os yw eich gwariant ar ymgyrchu yn **£250k neu lai**, rhaid i chi gyflwyno'r ffurflen erbyn 23 Medi 2016. Os yw eich gwariant ar ymgyrchu **dros £250k**, rhaid chi gyflwyno'r ffurflen erbyn 23 Rhagfyr 2016.

Gallech gael eich cosbi os na chyflwynwch eich adroddiadau ar amser.

Sut y gallwn helpu

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y canllawiau a awgrymwyd gennym yn y ddogfen hon, neu gallwch weld ein holl ganllawiau a'n hadnoddau diweddaraf ar ein gwefan.

Os yw'n haws, gallwch hefyd gysylltu â ni ar un o'r rhifau ffôn neu gyfeiriadau e-bost isod. Rydym yma i helpu, felly cysylltwch â ni.

Ffoniwch ni ar:

- Lloegr: 0333 103 1928
pef@electoralcommission.org.uk
- Yr Alban: 0333 103 1928
infoscotland@electoralcommission.org.uk
- Cymru: 0333 103 1929
gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk
- Gogledd Iwerddon: 0333 103 1928
infonorthernireland@electoralcommission.org.uk

Ewch i www.comisiwnetholiadol.org.uk

Rydym yn croesawu adborth ar ein canllawiau - e-bostiwch ni yn: pef@electoralcommission.org.uk